**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio, i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am ei Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref**

**Medi 2013**

---

Mae anghenion pobl hŷn a phobl anabl o ran tai wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ers tro byd, ac rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i'r anghenion hynny. Dyna pam y gwnaethom gyhoeddi yn ein Papur Gwyn, *Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*, ein bod yn bwriadu cynnal adolygiad o wasanaethau addasu. Mae adroddiad y Pwyllgor yn un amserol felly, a bydd yn sail i ragor o waith i ddatblygu polisi ar gyfer yr elfen eang ac amrywiol hon o'r maes tai.

Wrth reswm, mae gan bobl hŷn a phobl anabl nifer o anghenion, a'r rheini'n rhai amrywiol iawn. Mae hynny'n arbennig o wir ym maes addasiadau yn y cartref. Mae'r ystadegau demograffig moel ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio yn rhai cyfarwydd iawn, gyda phobl hŷn yn byw'n hirach ac am barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. O'r herwydd, mae'n bwysig bod y polisïau a'r fframweithiau priodol yn eu lle i ni fedru sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd effeithiol a chyson, ac yn unol â dymuniadau pobl hŷn a phobl anabl, a dymuniadau eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Er i ni weld cynnydd a gwelliant sylweddol ym maes polisi addasiadau yn y cartref yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor, yn briodol ddigon, wedi dwyn sylw at nifer o agweddau y gellid gwella mwy arnynt. Bydd yr adolygiad yr wyf yn bwriadu'i gynnal yn ceisio mynd i'r afael â chymaint â phosibl o'r materion a godwyd gan y Pwyllgor, fel y bo modd i ni wella ymhellach y trefniadau presennol ar gyfer addasiadau yn y cartref.

Os yw'r gwasanaeth addasiadau yn y cartref i lwyddo, mae'n gwbl hanfodol bod awdurdodau lleol yn gweithio'n gorfforaethol ar draws eu hadrannau, ac mae'n hollbwysig hefyd eu bod yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill. Mae'r Pwyllgor yn llygad ei le wrth bwysleisio hynny. Dyna'r neges sydd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac fe'i gwelwyd hefyd mewn adolygiadau blaenorol o wasanaethau addasu. Er hynny, mae angen pwysleisio unwaith eto pa mor bwysig ydyw.

Mae'r Pwyllgor, wrth baratoi'r adroddiad hwn, wedi gwneud gwaith gwerthfawr dros bobl hŷn a phobl anabl. Mae'n gorff pwysig o dystiolaeth y gall Llywodraeth Cymru ei hystyried wrth gynnal ei hadolygiad ei hun i addasiadau yn y cartref. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei ddycnwch a'i ymroddiad wrth wneud y gwaith hwn.

Nodaf isod fy ymateb i'r argymhellion unigol yn yr adroddiad.

**Mae ymatebion manwl i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad i'w gweld isod**:

Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

1. **Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o ran cyflawni argymhellion yr adroddiad hwn a gwella'r system addasiadau yn gyffredinol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gennym yn y Papur Gwyn Tai, rydym yn bwriadu cynnal ein hadolygiad ein hunain o wasanaethau addasu. Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor am ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd adrodd yn ôl yn flynyddol yn cyflawni'r hyn sydd gan y Pwyllgor mewn golwg, a hynny oherwydd y bydd adegau pan na fydd dim byd pendant neu ddim byd o gwbl i gyflwyno adroddiad yn ei gylch.

**Goblygiadau ariannol**

Mater i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru fydd hwn. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

2. **Dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Leol a darparwyr tai cymdeithasol, nodi beth mae'n credu yw'r safonau priodol ar gyfer darparu gwahanol fathau o wasanaethau addasu, gan gynnwys targedau ar gyfer amseroedd cyflawni a dylai sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyrraedd y safon honno.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae amserlenni statudol i'w gweld eisoes yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â darparu addasiadau. Wedi dweud hynny, diben y gwaith pellach y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yw sicrhau gwasanaethau a safonau sy'n gyson dda ym mhob ardal.

**Goblygiadau ariannol**

Dim.

3. **Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu effaith diwygio lles ar dai cymdeithasol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru atgoffa awdurdodau lleol i wneud defnydd priodol o daliadau tai yn ôl disgresiwn i helpu tenantiaid sy'n byw mewn tai wedi'u haddasu, ac i ystyried y canllawiau ar hyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn yr un modd ag y mae wedi gwneud hyd yma, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r effaith y mae'r diwygiadau lles yn ei chael ar bob agwedd ar y maes tai. Bydd yn atgoffa'r awdurdodau lleol eu bod yn cael gwneud taliadau tai yn ôl disgresiwn.

**Goblygiadau ariannol**

Mater i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru fydd hwn. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

4. **Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CHC, Gofal a Thrwsio a therapyddion galwedigaethol i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno un pwynt mynediad at y system o fewn pob ardal awdurdod lleol, lle nad yw trefniadau o'r fath ar waith yn barod.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gwneud hynny'n barod yng nghyd-destun ein hadolygiad arfaethedig o wasanaethau addasu. Mae'r canllawiau presennol hefyd yn nodi'n glir bod un pwynt mynediad at y system ac un pwynt cyswllt i gwsmeriaid yn gwbl hanfodol.

**Goblygiadau ariannol**

Mae'n debyg na fyddant yn sylweddol o gwbl. Maent yn fater i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

5. **Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael am yr agweddau amrywiol ar y system addasiadau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth yn egluro rôl a hawliau cleientiaid mewn perthynas ag addasiadau a wnaethpwyd o dan grant cyfleusterau i'r anabl.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Gofal a Thrwsio Cymru, Age Cymru a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol wedi paratoi taflen gynhwysfawr eisoes.

**Goblygiadau ariannol**

Dim, gan fod y daflen ar gael yn eang.

6. **Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn a hybu'n fwy gweithredol y broses garlam ar gyfer addasiadau ar raddfa fach a brosesir y tu allan i'r system grant cyfleusterau i'r anabl.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi gwneud hynny yn y gorffennol a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae'r canllawiau presennol, a gafodd eu diwygio ar ôl yr adolygiad o addasiadau a gynhaliwyd yn 2005, yn nodi'n gwbl glir na ddylai addasiadau ar raddfa fach gael eu gwneud drwy'r system Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

**Goblygiadau ariannol**

Dim ar hyn o bryd.

7. **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o sicrhau bod y rhaglen addasiadau brys ar gael i bobl o bob oed ac i gartrefi o bob deiliadaeth, a dylai ddadansoddi goblygiadau ariannol y dull hwn o weithredu.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym wedi edrych ar hyn eisoes a byddwn yn ystyried y mater ymhellach yng nghyd-destun ein hadolygiad o addasiadau. Cafodd fy rhagflaenydd drafodaeth â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr union fater hwn ac rwyf yn awyddus i barhau i'w drafod yn y dyfodol agos.

**Goblygiadau ariannol**

Bydd goblygiadau ariannol yn gysylltiedig ag estyn y Rhaglen Addasiadau Brys i fathau eraill o ddeiliadaethau a bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu, y bennaf, o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

8. **Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau i awdurdodau lleol yn egluro pryd y dylid gwneud addasiadau drwy'r grant cyfleusterau i'r anabl. Dylai'r canllawiau hyn nodi y dylid defnyddio'r grant cyfleusterau i'r anabl dim ond os dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o wneud addasiadau.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r canllawiau presennol ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi'n gwbl glir na ddylai addasiadau ar raddfa fach gael eu gwneud drwy'r system Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Gweler y sylw uchod.

**Goblygiadau ariannol**

Dim ar hyn o bryd.

9. **Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol, gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol, yn llunio siarter cwsmeriaid yn amlinellu ei ymrwymiad i drigolion yr ardal mewn perthynas â gwasanaethau addasu.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae hyn yn rhy fiwrocrataidd, yn fy marn i, ac yn ormod o faich ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar adeg pan fo cryn bwysau ar adnoddau ariannol ac adnoddau staffio. O'r herwydd, ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.

**Goblygiadau ariannol**

Dim. Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei wrthod.

10. **Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol i ddatblygu dull asiantaeth o weithredu mewn perthynas â grantiau cyfleusterau i'r anabl fel model o arfer gorau, os nad ydynt wedi gwneud hynny yn barod.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn parhau i annog awdurdodau lleol i fabwysiadu dull asiantaeth o weithredu mewn perthynas â grantiau cyfleusterau i'r anabl, gan wneud hynny mewn partneriaeth â CLlLC a Phanel Technegol Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan.

**Goblygiadau ariannol**

Ni fydd yr argymhelliad hwn yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

11. **Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn dynodi uwch swyddog i arwain ar addasiadau yn gorfforaethol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Gallwn ei ystyried ond byddai'n anodd i Lywodraeth Cymru osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud hynny. Gallai gofyniad o'r fath fod yn faich newydd ac, o'r herwydd, byddai angen arian ychwanegol. Mae'n canllawiau ar grantiau cyfleusterau i'r anabl yn pwysleisio bod angen mynd ati mewn modd corfforaethol i ddarparu addasiadau, a byddwn yn trafod hynny gyda CLlLC a Phanel Technegol Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan. Gallai pwyllgor craffu awdurdod lleol hefyd ystyried sut y mae'r awdurdod lleol, ar y cyd â landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sefydliadau eraill, yn mynd ati'n lleol i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

**Goblygiadau ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

12. **Dylai Llywodraeth Cymru annog pwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar berfformiad gwasanaethau addasu yn eu hardaloedd o leiaf unwaith bob tymor y cyngor.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn annog pwyllgorau craffu lleol i wneud hynny. Mae'n bosibl y bydd gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol ran i'w chwarae hefyd wrth roi'r argymhelliad hwn ar waith.

**Goblygiadau ariannol**

Mater i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru fydd hwn. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

13. **Dylai Llywodraeth Cymru archwilio gwasanaethau addasu i nodi arfer gorau a sut y mae'n cael ei weithredu ar draws awdurdodau lleol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei chasgliadau.**

**Ymateb: Gwrthod**

Nid mater i Lywodraeth Cymru yw ymyrryd yn y fath fodd. Mater i'w ystyried gan awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'u partneriaid strategol yw pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu a gweinyddu gwasanaethau addasu. Mae'r canllawiau presennol ar grantiau cyfleusterau i'r anabl yn nodi amrywiaeth o arferion da ac maent hefyd, heb enwi unrhyw sefydliadau, yn rhoi enghreifftiau o atebion a ddatblygwyd yn lleol er mwyn datrys problemau.

**Goblygiadau ariannol**

Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei wrthod, felly, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

14. **Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno trefniadau monitro perfformiad ar gyfer pob gwasanaeth addasu ar draws pob deiliadaeth, gan gynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl, a dylent sicrhau eu bod yn gywir ac yn dryloyw. Dylai trefniadau monitro perfformiad gynnwys:**

    - **yr amser rhwng yr ymholiad cyntaf ac asesiad gan therapydd galwedigaethol;**

    - **yr amser a gymerwyd i ddatrys problem yn ymwneud â thai, gan gynnwys gwybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i'w datrys (er enghraifft, drwy ddefnyddio Grant Cyfleusterau i'r Anabl, y rhaglen addasiadau brys neu drwy symud i dŷ arall);**

- **yr amser a gymerwyd i wneud addasiad/Grant Cyfleusterau i'r Anabl dros ystod o gostau.**

**Ymateb: Gwrthod**

Rydym wedi ystyried trefniadau Monitro Perfformiad ychwanegol yn y gorffennol, a'r duedd yw cwtogi ar nifer y dangosyddion perfformiad yn hytrach na chyflwyno rhagor ohonynt. Mae yna gwestiynau ynghylch pa mor gyson yw'r data sy'n cael eu cyflwyno gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd, a byddwn yn mynd ati yn ystod ein hadolygiad i ystyried sut orau i fonitro perfformiad. Fodd bynnag, mae'r canllawiau ar gyfer y Dangosydd Perfformiad presennol yn gwbl glir ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chyflwyno.

**Goblygiadau ariannol**

Ni fydd yr argymhelliad hwn yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru, a hynny am ei fod yn cael ei wrthod.

15. **Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a manwl am y dangosydd perfformiad newydd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddadansoddi ac y ceir adroddiadau arno'n gyson.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r canllawiau presennol ar PSR/004 sy'n ymwneud â darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn nodi'n gwbl glir yr hyn y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei wneud. Cyfeiriais at y canllawiau hyn yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor a gwnes yr union bwynt hwn wrth gyflwyno tystiolaeth ar lafar.

**Goblygiadau ariannol**

Ni fydd yr argymhelliad hwn yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Mae canllawiau cynhwysfawr ar gael eisoes am y Dangosydd Perfformiad presennol.

16. **Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau yn cael eu rhoi ar waith, fel model o arfer da, mewn awdurdodau lleol i fonitro boddhad cwsmeriaid a chanlyniadau yn y tymor hirach, gan gynnwys y modd y caiff y gwaith ei wneud, a'i ansawdd. Rydym yn disgwyl i foddhad cwsmeriaid gael ei fonitro drwy gydol y broses. Rydym yn disgwyl i brosesau gael eu cyflwyno i sicrhau y gellir monitro ansawdd y gwaith yn annibynnol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'n bwysig bod lefelau boddhad â gwasanaethau'n cael eu monitro a bod canlyniadau yn y tymor hirach yn cael eu gwerthuso. Mae awdurdodau lleol yn cynnal arolygon boddhad cwsmeriaid yn rheolaidd er mwyn gwella'u gwasanaethau. Mae Gofal a Thrwsio Cymru ac asiantaethau Gofal a Thrwsio

hefyd yn ceisio barn cleientiaid wrth ddarparu gwasanaethau a chaiff yr wybodaeth honno ei chadw'n ganolog. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hefyd yn cynnal arolygon ymhlith eu tenantiaid i weld a ydynt yn fodlon ar y llety ac ar unrhyw wasanaethau a ddarparwyd. Caiff ansawdd unrhyw waith ei asesu cyn iddo gael ei gymeradwyo ac ni ellir ei roi yn y categori 'wedi'i gwblhau' os nad yw'n cyrraedd y safon angenrheidiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i nodi ac i ledaenu arferion da.

**Goblygiadau ariannol**

Gan fod y gwaith hwn ar y gweill eisoes, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

17. **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw cyfraniadau o gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol i addasu tai yn briodol i wella canlyniadau i gleifion.**

**Ymateb: Derbyn**

Cynhaliodd fy rhagflaenydd drafodaethau â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd am yr union fater hwn ac rwyf yn awyddus i barhau i'w drafod gyda'r Gweinidog Iechyd newydd yn y dyfodol agos. Mae trafodaethau wedi'u cynnal hefyd ar lefel swyddogion. Mae digon o dystiolaeth i ddangos bod addasiadau yn fodd i arbed cryn dipyn o gostau i'r gwasanaeth iechyd yng nghyd-destun derbyn a rhyddhau cleifion, a'r angen i roi gofal am gyfnodau estynedig.

**Goblygiadau ariannol**

Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol i gyllidebau iechyd os bydd Llywodraeth Cymru yn ailgyfeirio cyfran o'r arian hwnnw er mwyn addasu tai. Byddai angen talu'r costau hynny gan ddefnyddio'r ddarpariaeth sydd yn y gyllideb eisoes.

18. **Dylai Llywodraeth Cymru wneud dadansoddiad cost a budd o'r prawf modd ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar ei chasgliadau.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn edrych ar y prawf modd yn ystod yr adolygiad o addasiadau a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyn Tai. Mae'n bosibl na fyddwn, wrth bwyso a mesur, yn edrych yn benodol ar ddadansoddiad cost a budd, ond byddwn yn ystyried y prawf modd yn ofalus iawn i weld a oes lle i newid y trefniadau presennol.

**Goblygiadau ariannol**

O newid y prawf modd ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl, byddai goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru ac i'r awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae unrhyw wariant gan yr awdurdodau lleol ar grantiau cyfleusterau i'r

anabl yn dod o'u Cyllid Cyfalaf Cyffredinol, a byddai'n rhaid i gostau ychwanegol ddod o'r llinell wariant honno yn y gyllideb.

19. **Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyllido'r rhaglen Grant Byw'n Annibynnol, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn y rhaglen.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cafodd llawer o bobl gymorth o dan y rhaglen Grant Byw'n Annibynnol i barhau i fyw mor gyfforddus ac mor ddiogel â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Byddwn yn mynd ati yn ystod ein hadolygiad i ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad a gynhaliwyd o'r rhaglen honno. Byddwn yn penderfynu a ddylid parhau â'r rhaglen ai peidio ar sail canlyniad ein hadolygiad o addasiadau, a bydd yn rhaid ystyried hefyd a fydd unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol ar gael ar ei chyfer. Mae'n bosibl y bydd yr adolygiad yn argymell bod unrhyw fân addasiadau'n cael eu gwneud y tu allan i'r system grantiau cyfleusterau i'r anabl. Gallai hynny olygu na fyddai angen y grant byw'n annibynnol bellach ac y byddai'r system bresennol yn cael ei symleiddio.

**Goblygiadau ariannol**

Efallai y byddai goblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru pe bai'r rhaglen grant byw'n annibynnol yn cael ei hestyn.

20. **Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl brosesau Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer addasu tai yn eu cynlluniau busnes.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (Canllawiau Trosglwyddo Tai) yn nodi'n glir y dylid sicrhau, os oes bwriad i Drosglwyddo Stoc yn Wirfoddol ar Raddfa Fawr, bod darpariaeth ddigonol ar gyfer addasu tai yn y cynlluniau busnes o'r dechrau un. Ategwyd y pwynt hwn yn 2009 pan ysgrifennodd y Gyfarwyddiaeth Dai at bawb a oedd yn bwriadu Trosglwyddo Stoc yn Wirfoddol ar Raddfa Fawr i'w hatgoffa bod angen iddynt sicrhau eu bod yn cynnwys yn eu cynlluniau busnes ragdybiaethau ariannol realistig ar gyfer unrhyw waith i addasu'r stoc hwnnw. Byddwn yn parhau i wneud yn siŵr bod unrhyw gynlluniau newydd a sefydlir yn y dyfodol i Drosglwyddo Stoc yn Wirfoddol ar Raddfa Fawr yn gwybod bod angen iddynt wneud hynny.

**Goblygiadau ariannol**

Dim ond ychydig iawn o oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru fydd yn deillio o'r argymhelliad hwn a bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

21. **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddefnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer addasiadau.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rwyf yn awyddus i drafod hyn gyda'r Gweinidog Iechyd newydd. Mae trafodaethau wedi'u cynnal eisoes ar lefel swyddogion. Mae digon o dystiolaeth i ddangos bod addasiadau yn fodd i arbed cryn dipyn o gostau i'r gwasanaeth iechyd yng nghyd-destun derbyn a rhyddhau cleifion, a'r angen i roi gofal am gyfnodau estynedig.

**Goblygiadau ariannol**

Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol i gyllidebau iechyd os bydd Llywodraeth Cymru yn ailgyfeirio cyfran o'r arian o'r gyllideb Buddsoddi i Arbed er mwyn addasu tai. Byddai angen talu'r costau hynny gan ddefnyddio'r ddarpariaeth sydd yn y gyllideb eisoes.

22. **Dylai Llywodraeth Cymru wneud cofrestrau tai hygyrch yn ofyniad statudol. Dylai hyn gynnwys yr holl dai cymdeithasol. Hefyd, dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gellir defnyddio'r Bil Tai sydd yn yr arfaeth i gynnwys llety rhent preifat ar gofrestrau o'r fath.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae gan yn rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol gofrestrau sy'n rhestru tai cymdeithasol sydd wedi'u haddasu. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar bolisi dyrannu tai cymdeithasol hefyd yn datgan yn glir y dylid dyrannu stoc sydd wedi'i addasu eisoes i denantiaid os yw'n diwallu eu hanghenion ac os yw gwneud hynny'n dderbyniol ac yn ymarferol. Bydd y Bil Tai yn cael ei gyflwyno yn ystod y misoedd nesaf ac nid oes modd cynnwys mesurau sy'n ymdrin â stoc yn y sector rhentu preifat ar hyn o bryd.

**Goblygiadau ariannol**

Ni fydd yr argymhelliad hwn yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru, a hynny am ei fod yn cael ei dderbyn mewn egwyddor.

23. **Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r asiantaethau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r broses addasiadau i sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o gyfleoedd i ailgylchu offer.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae nifer sylweddol o awdurdodau lleol yn gweithio'n gorfforaethol i ailgylchu cymaint o offer ag y modd os yw'n ddiogel ac yn ymarferol iddynt wneud hynny. Mae gan y gwasanaethau cymdeithasol hefyd fentrau penodol ar gyfer storio ac ailgylchu offer. Byddwn yn eu hannog i barhau â mentrau o'r fath.

**Goblygiadau ariannol**

Bydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru a fydd yn deillio o'r argymhelliad hwn yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**